



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Atodiad 1:
Ymateb Llywodraeth Cymru i “Maniffesto Byw ar gyfer Cymunedau Byw” -
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Gwaith

1. Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Cenedlaethol eraill i sicrhau bod y swyddi sydd ar gael mewn swyddfeydd rhanbarthol yn cynnwys amrediad o gyfleoedd gwaith ac amrediad o gyflogau. Llywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol, undebau a sefydliadau Cenedlaethol i lunio strategaeth economaidd sydd yn rhoi pwyslais ar ddatganoli swyddi oddi mewn i Gymru e.e. Cynllun Datganoli Swyddi Llywodraeth Cymru – cadarnhau a chryfhau swyddfeydd Caerfyrddin, Aberystwyth, Caernarfon, Cyffordd Llandudno. Galw ar sefydliadau cyhoeddus eraill i wneud yn yr un modd – gan gynnwys mudiadau yn y trydydd sector sy'n cael arian cyhoeddus a sefydliadau cyfryngol fel S4C. Dylai'r llywodraeth gynnig cefnogaeth i gwmnïau symud o ardaloedd twf i lefydd eraill yng Nghymru, ac fel rhan o'r cytundeb cefnogaeth dylent sicrhau fod canran o'r gweithlu â sgiliau cyfathrebu Cymraeg.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei Strategaeth Leoli i sicrhau presenoldeb cynaliadwy ledled Cymru – yn arbennig yn ein swyddfeydd newydd ym Merthyr, Aberystwyth a Llandudno.
- Yn yr un modd, rydym wedi ymrwymo i ddarparu swyddi, cyfleoedd a gyrfaedd ym mhob un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Ar raddfa ehangach y sector cyhoeddus, rydym ni a'n partneriaid, drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu a Fframwaith Strategol y Gweithlu, wedi ymrwymo i ddiogelu swyddi ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, rheoli gwargedau a chreu prentisiaethau.
- Gan gofio'r cyd-destun economaidd, mae hwn yn gyfnod anodd ond mae angen cynllunio'r gweithlu'n gadarn er mwyn gallu cydweithio'n effeithiol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Gweithlu Strategol yn creu dull unedig o wneud hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried sgiliau Cymraeg.

2. Oherwydd diffyg cyfalaf mewn ardaloedd tlawd, a diffyg rhwydweithiau i gefnogi mentergarwch, dylid cynnig mwy o gefnogaeth (yn ariannol a thechnegol) i'r sector cydweithredol, gyda thargedau pendant i greu swyddi yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Mentrau Cymdeithasol ledled Cymru. Mae'n gwneud hyn drwy roi mynediad llawn i amrywiaeth dwyieithog o

weithgarwch cymorth i fusnesau prif ffrwd drwy ein rhaglenni Dechrau a Busnes Cymru, gan gynnwys cymorth i ddatblygu Polisiâu'r Gymraeg a'u rhoi ar waith, a thrwy ariannu sefydliadau allweddol fel Canolfan Cydweithredol Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru i ddarparu cymorth ac arweiniad busnes arbenigol gyfer Mentrau Cymdeithasol.

3. Newid cylch gorchwyl y Mentrau Iaith i fod yn "Mentrau Iaith a Gwaith" gyda chyfrifoldeb penodol a chyllideb i hyrwyddo mentergarwch trwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes. Adolygu cylch gwaith rhai o'r mentrau gan adlewyrchu'r enghreifftiau o arfer gorau yn y maes. Sicrhau cydlynedd llawer iawn mwy effeithiol rhwng y mentrau yn genedlaethol trwy benodi Cyfarwyddwr a Phwyllgor Llywio Cenedlaethol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith mentrau iaith a nifer o gyrff eraill ar lawr gwlad drwy ddarparu arian grant. Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer ein gwaith o roi rhannau perthnasol o'n Strategaeth y Gymraeg ar waith, mae adolygiad o waith mentrau iaith, yn ogystal â chynlluniau gweithredu iaith lleol Llywodraeth Cymru a chynllun hybu'r Gymraeg yn Aman Tawe, yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Brifysgol Caerdydd ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiad, ymysg pethau eraill, yn ystyried effaith gwaith y mentrau hyn ar economïau lleol. Bydd yr adolygiad hefyd yn casglu enghreifftiau o arfer orau.
- Adnabyddodd Llywodraeth Cymru yn 2012 fod angen mwy o gydlynw rhwng y mentrau yn genedlaethol trwy ddarparu cyllid craidd ar gyfer Mentrau Iaith Cymru, sydd yn strwythur cenedlaethol i gefnogi'r rhwydwaith o fentrau iaith. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi Mentrau Iaith Cymru i benodi cydgysylltydd cenedlaethol. Mae wedi darparu cyllid hefyd er mwyn datblygu sgiliau swyddogion mentrau iaith drwy ddarparu cyrsiau hyfforddi, yn ogystal â chyfluoedd i rwydweithio er mwyn rhannu arferion gorau.

4. Sefydlu Marchnad Llafur Cyfrwng Gymraeg – dylid mynd ati ar frys i fonitro'r angen am weithlu cyfrwng Gymraeg mewn sectorau a lleoliadau ledled Cymru a chynllunio i ateb y galw am weithlu â sgiliau iaith Gymraeg gan gynnwys sicrhau cynllun hyfforddiant uchelgeisiol Gymraeg yn y gweithle. Dylid dechrau gyda'r cyflogwyr mawr lle mae angen y ddarpariaeth, megis y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg uwch ac addysg bellach.

- Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd a nifer o weithgareddau wedi eu llunio er mwyn cynyddu amlygrwydd sgiliau iaith Gymraeg yn y farchnad llafur. Ym mis Ebrill 2013 dyfarnodd Llywodraeth Cymru contract er mwyn cynnal arolwg ymhlith cyflogwyr Cymru ynglŷn â'u gofynion cyfredol a'u gofynion yn y dyfodol mewn perthynas â sgiliau iaith Gymraeg. Bydd yr arolwg yn sicrhau lleiafswm o 4,000 o ymatebion ar draws sectorau, galwedigaethau ac ardaloedd daearyddol a disgwylir y canlyniadau cyntaf ym mis Hydref 2013. Bydd yr arolwg yn targedu'r sectorau canlynol yn y lle cyntaf: gofal cymdeithasol, gofal plant, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth a sector y diwydiannau creadigol. Bydd sectorau ychwanegol yn cael eu harolygu maes o law.
- Defnyddir canlyniadau'r arolwg i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiâu a rhaglenni yn y dyfodol er mwyn cefnogi dysgu cyfrwng Gymraeg a dwyieithog. Bydd y canlyniadau o fudd hefyd er mwyn tynnu sylw at feysydd cyflogaeth lle y gellid ystyried sgiliau iaith Gymraeg wrth recriwtio; bydd hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn hysbysu ac

annog dysgwyr i gynnal a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod addysg ôl-16, fel bod y sgiliau hyn ar gael i'w defnyddio yn y gweithle.

- Rhaglen Datblygu'r Gweithlu yw prif wasanaeth cymorth Llywodraeth Cymru i helpu busnesau i wella sgiliau eu gweithlu. Yn dilyn newidiadau i ddarpariaeth y rhaglen yn ystod 2012, mae'r ystyriaeth i ofynion sgiliau iaith Gymraeg wedi cael lle mwy blaenllaw. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais am gymorth ystyried a oes angen datblygu sgiliau iaith Gymraeg eu gweithwyr cyflogedig ac a oes yna unrhyw gyfleoedd i ddarparu hyfforddiant angenrheidiol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r gofynion hyn wedi'u rhestru yng nghynlluniau hyfforddi'r sefydliadau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru wrth wneud cais am gymorth.
- Mae'r sector Addysg Bellach yn cael ei gefnogi drwy ein Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg sydd ar gael ar gyfer ymarferwyr. Nod y cynllun yw gwella sgiliau iaith Gymraeg a sgiliau methodoleg athrawon a darlithwyr fel y gallant ddefnyddio'r sgiliau hyn yn yr ystafell ddosbarth. Mae cyrsiau ar gael ar bob lefel, cânt eu darparu ym mhob cwr o Gymru a chânt eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.
- Prif ddarparwyr hyfforddiant Cymraeg i Oedolion yw'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penodi Grŵp Adolygu annibynnol i adolygu Cymraeg i Oedolion yn ei gyfanrwydd. Bydd y Grŵp yn cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog yn yr haf yn ogystal ag argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen. Mae'r adolygiad yn cynnwys ystyried datblygu hyfforddiant ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle a bydd y Gweinidog yn ystyried y canfyddiadau yn ofalus dros yr haf.

5. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill i lunio cynlluniau gweithredu tymor byr fel man cychwyn i ddatblygu ac i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod mwy o swyddi yn cael eu hysbysebu lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, mwy o gyfleoedd hyfforddiant mewn swydd i loywi'r Gymraeg ac i ddysgu Cymraeg a chysiau ymwybyddiaeth iaith traws sector er mwyn datblygu dealltwriaeth ac ennill cefnogaeth i'r cynlluniau yma mysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Cydweithio gyda Undebau Llafur i lunio rhaglen gyfatebol ymysg yr undebau.

- Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun gweithredu mewnol, sef Rhaglen Gwella'r Gymraeg, er mwyn gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r cynllun, a gymeradwywyd gan Fwrdd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2012, yn cynnwys 62 o argymhellion sy'n deillio o argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a chynllun gweithredu corfforaethol Cynllun Iaith Gymraeg y Llywodraeth.
- Mae pwyntiau gweithredu'r Rhaglen Wella yn seiliedig ar saith thema a'u nod yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Maent fel a ganlyn:
 - o Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
 - o "Gweld a Theimlo" Dwyieithog;
 - o Cymraeg yn y Gweithle;
 - o Sgiliau dwyieithog, cynllunio'r gweithlu a chysiau Cymraeg i Oedolion;
 - o Perchnogaeth, monitro ac adrodd;
 - o Pwyntiau gweithredu o gynllun corfforaethol y Cynllun Iaith Gymraeg.

- Mae'r pwyntiau gweithredu'n amrywio o ddosbarthu adnoddau, fel llinynnau gwddf (lanyards) a llyfrau, i gynyddu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, i bwyntiau gweithredu mwy strategol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Cyffredinol ystyried y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen arnynt nawr ac yn y dyfodol, ac sy'n creu timau dwyieithog ym mhob adran.
- Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o asesu a oes angen sgiliau iaith, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â CBAC er mwyn datblygu offeryn diagnostig sy'n galluogi rheolwyr llinell sydd am hysbysebu swyddi gwag i asesu a oes angen sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r offeryn hwn hefyd ar gael i sefydliadau eraill ei ddefnyddio.
- Bydd y safonau iaith (sydd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd), gyda amser yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod gorchmynion ar amryw sefydliadau. Bydd y safonau gweithredu yn cynnig modd o sicrhau mwy o gyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

6. Cefnogi a chydweithio gydag undebau llafur i ddiogelu swyddi ac amodau gwaith yn y sector cyhoeddus a datblygu dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o bwysigrwydd y swyddi hyn yn yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd Cymraeg yn arbennig.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddiogelu swyddi ac amodau gweithio yn y sector cyhoeddus.

7. Polisi caffaeliad pob corff a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru i roi blaenoriaeth i gwmnïau o'r ardal lle mae'r gwaith yn cael ei wneud, ac i gwmnïau o Gymru dros gwmnïau o bell - er mwyn lleihau'r pellter a deithir a sicrhau bod swyddi yn cael eu creu yn ein cymunedau. Dylid sicrhau yn ogystal bod mwy o gyfleoedd i gwmnïau bach a chanolig eu maint i dderbyn tendrau yn ogystal â chwmnïau mawr. Ymhob achos, dylid sicrhau bod darpariaeth Gymraeg cwmni sy'n derbyn tendr cystal neu'n well nag un y corff cyhoeddus sy'n talu am y gwaith.

- Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid Ddatganiad Polisi Caffael Cymru ar 6 Rhagfyr 2012 sy'n dwyn ynghyd prif bolisiau caffael a dulliau arfer gorau Llywodraeth Cymru gyda neges glir y disgwylir i bob sefydliad sector cyhoeddus eu defnyddio.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyflenwyr llai i economi Cymru, a'r flaenoriaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn yn economaidd yw hybu swyddi a chreu twf.
- Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi'n glir y disgwylir i gyrrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau cymesur sy'n seiliedig ar risg wrth gaffael er mwyn ei gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig wneud cais.
- Mae'r dull Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SquID) yn symleiddio'r cam cyn-cymhwyso / dewis ar gyfer cyflenwyr llai ac yn sicrhau y gellir defnyddio cyfres gyffredin o gwestiynau, gan arbed amser ac ymdrech iddynt. Mae Llywodraeth Cymru a'r sectorau llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru wedi ymrwmo i ddefnyddio'r dull SquID.

- Mae hysbysebu'n eang bob contract sector cyhoeddus sy'n werth dros £25,000 ar wefan GwerthwchiGymru yn sicrhau bod cyfleoedd contract yn agored i bob cyflenwr. Yn sgil ein dull polisi, mae nifer yr hysbysebion contract gwerth is a hysbysebwr ar GwerthwchiGymru wedi cynyddu 38% yn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mewn perthynas â gwaith caffael Llywodraeth Cymru, mae ein Strategaeth y Gymraeg: Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013-14 yn cynnwys pwynt gweithredu er mwyn datblygu a monitro ymhellach sut mae materion y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn amodau a thelerau grantiau a gyhoeddir gan adrannau Llywodraeth Cymru.
- Dim ond un o'r atebion ar gyfer sbarduno twf economaidd yng Nghymru yw caffael cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod ein busnesau yn datblygu'r uchelgais a'r gallu i ennill contractau ymhellach i ffwrdd hefyd.

8. Llundio cynllun gweithredu i annog cyflogwyr Cymru, gan gynnwys y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i hyrwyddo gwerth masnachol defnyddio'r Gymraeg. Annog y cyhoedd i gefnogi busnesau a gwasanaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn gwneud ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi penodi Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn ystyried y Gymraeg a Datblygiad Economaidd. Mae'r Grŵp yn cydnabod bod gwerth masnachol y Gymraeg yn fater pwysig i fynd i'r afael ag ef. Er mwyn sicrhau y gellir ystyried yr amrywiaeth ehangaf posibl o safbwyntiau a chynghor, mae'r Grŵp yn gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan y cyhoedd, gan gynnwys sefydliadau a busnesau ar hyn o bryd. Yn benodol, mae'r grŵp yn gwahodd cyflwyniadau mewn perthynas â:
 - o Sut gallai defnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd gefnogi twf busnesau a datblygiad economaidd?
 - o Sut gallai datblygiad economaidd sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg?
 - o Sut gallai'r sector cyhoeddus sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith economaidd lleol?
- Mae'r Grŵp yn gwahodd ymatebwyr hefyd i dynnu sylw at
 - o Enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer swyddi iaith Gymraeg
 - o Enghreifftiau o fusnesau sydd wedi elwa o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg.
 - o Awgrymiadau sy'n hwyluso'r gwaith o hyrwyddo datblygiad economaidd a'r Gymraeg ar y cyd
- Yn ogystal â gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig, bydd y Grŵp yn cynnal sesiynau casglu tystiolaeth wyneb yn wyneb a'r bwriad yw gwahodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i gyflwyno ei chynigion er mwyn i'r Grŵp eu hystyried.
- Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Gweinidog yn dilyn gwyliau'r haf.

Tai a Chynllunio

9. Dylid cyhoeddi fersiwn diwygiedig TAN 20 cyn gynted â phosib. Dylai cynghorau yn ogystal â datblygwyr gynnal Asesiadau Effaith Iaith a rhoi sail statudol i hyn gan adolygu'r sefyllfa yn flynyddol i sicrhau y gweithredir hyn. Galwn ar Gomisiynydd y Gymraeg i adolygu pob Cynllun Datblygu arfaethedig neu sydd ar waith er mwyn asesu'r effaith ar y Gymraeg gan na wneir hynny'n ddigonol ar hyn o bryd gan TAN 20.

- Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cael ei adolygu gan y Gweinidog Tai ac Adfywio newydd ac fe'i cyhoeddir maes o law.
- Bydd unrhyw Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig yn sicrhau, mewn achosion lle mae'r awdurdod yn credu bod y Gymraeg yn rhan o wead diwylliannol a chymdeithasol yr ardal, bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o'r arfarniad cynaliadwyedd yn ystod y gwaith cynllunio. Yn ei manifest, mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod bod yr iaith yn un o hanfodion cynaliadwyedd ac felly mae'n hanfodol bwysig ei bod yn cael ei hystyried gyda materion cynaliadwyedd eraill cyn gynted â phosibl.
- Mae'r rheoliadau cyfredol yn cynnwys proses briodol lle gall pob parti sydd â buddiant i leisio ei farn a gall yr Arolygydd annibynnol ystyried pob agwedd ar y cynllun, gan arwain at archwiliad ffurfiol. Mae hyn yn golygu, dan y drefn gyfredol, y gall y Comisiynydd, os yw ef/hi yn dymuno gwneud hynny, ymateb i gynlluniau yn ystod y camau ymgynghori. Mae pob awdurdod cynllunio lleol wedi paratoi amserlen ac maent ar gael drwy wefannau'r awdurdodau. Bydd hyn yn rhoi rhyw syniad i'r Comisiynydd pryd y cynhelir y camau statudol yn ystod y broses o baratoi'r cynllun.
- Ar hyn o bryd, mae gwaith mireinio'r cynllun datblygu lleol yn ystyried sut i wella'r system ar gyfer llunio cynlluniau o fewn y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol presennol. Nid creu proses newydd yw cylch gwaith yr ymarfer, ond, yn hytrach, ystyried ffyrdd o wella'r mecanwaith presennol. Fel rhan o'r gwaith hwn, pan fydd rheoliadau wedi'u diwygio, bydd yn bosibl ystyried cynnwys Comisiynydd y Gymraeg (ac o bosibl y comisiynwyr eraill) fel rhan o restr o ymgynghoreion statudol sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau.

10. Pob awdurdod cynllunio i adolygu eu cynlluniau ardal, gan seilio'r cynlluniau ar anghenion lleol ac ar gryfhau cymunedau a safle'r Gymraeg, gan ddileu cynlluniau presennol a chreu rhai newydd yn eu lle pan fo angen. Dylent adolygu'r sefyllfa yn flynyddol.

- Roedd Cylchlythyr a gyhoeddwyd ym 1988 yn amlinellu sut y dylai'r Gymraeg gof yn ystyriaeth berthnasol wrth gynllunio defnydd tir. Ymgorfforwyd y polisi hwn yn TAN20 (2000) a Phanel Polisi Cynllunio Cymru yn 2002. Felly dylai'r cynlluniau datblygu fod wedi ystyried goblygiadau eu polisïau/dyraniadau ar y Gymraeg. Nid yw polisïau cynllunio cenedlaethol wedi newid: yn hytrach bydd nodyn cyfarwyddyd 2000 (TAN20) yn cael ei ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn darparu canllawiau mewn perthynas â chynlluniau datblygu lleol; ni fydd hyn, felly, wedi effeithio ar y dull gweithredu mewn perthynas â pholisïau cynllunio.
- Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol yn yr arddull newydd wedi bodoli ers 2005. Mae awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn gweithio o fewn y fframwaith newydd hwn. Mae'r holl gynlluniau cyfredol naill ai wedi ystyried neu wrthi'n ystyried goblygiadau eu strategaethau/polisïau/dyraniadau ar y Gymraeg

fel y bo'n briodol. Mae mater yr iaith Gymraeg wedi codi mewn sawl gwrandawriad yn ystod y broses archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ofyniad statudol bod cynlluniau datblygu lleol yn cael eu hadolygu bob 4 blynedd a bod Adroddiad Monitro Blyneddol ar effeithiolrwydd polisïau'r cynllun yn cael ei gyhoeddi. Mae'r maes gwaith hwn yn cael ei ystyried hefyd fel rhan o waith mireinio'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

- Mae'r cynlluniau datblygu lleol yn cynnwys y polisïau a'r dyraniadau tir sy'n ofynnol er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd yn y cymunedau. Gwaith yr awdurdod yw llunio cynllun sy'n seiliedig ar ei dystiolaeth, a gallai hyn arwain at orfod gwneud penderfyniadau anodd weithiau er budd ehangach y cyhoedd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod gofynion presennol ar gyfer monitro ac adolygu'r cynlluniau yn golygu nad oes angen y pwynt gweithredu a awgrymir.

11. Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r Biliau Cynladwyedd a Cynllunio newydd trwy, ymysg pethau eraill, gynnwys lles y Gymraeg fel priod iaith Cymru fel rhan o'r diffiniad statudol o ddatblygu cynaliadwy a gosod asesiadau effaith iaith datblygiadau ar sail statudol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

- Mae Datblygu Cynaliadwy wrth galon gwaith y Llywodraeth, fel a nodir yn y Raglen Lywodraethu yn ogystal a datganiad deddfwriaethol y Prif Weinidog.
- Mae datblygu cynaliadwy yn cael effaith ehangach na'n gweithredoedd ar dai a chynllunio. Mae'n cynnwys sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwell dyfodol i bobl a chymunedau ar hyd a lled Cymru, gan adnabod y cysylltiad rhwng yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd,. Byddai diystyru un o'r rhain yn cael effaith ar sut yr ydym yn datblygu fel cenedl i greu gwell dyfodol. Mae'r iaith Gymraeg yn elfen trawsbynciol sy'n berthnasol ym mhob maes: mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i sut yr ydym yn adeiladu ar ein gwaddol diwylliannol er mwyn cyflawni cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb i bawb.
- Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at datblygu cynaliadwy wedi cydnabod pa mor hanfodol bwysig yw gwerth yr iaith Gymraeg. Rydym yn gweld y Gymraeg fel rhan Rydym yn gweld yr iaith Gymraeg fel rhan integredig o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru gan ei fod yn rhan hanfodol o hunaniaeth cenedlaethol, chymdeithas gydag ymdeimlad hanfodol o'i diwylliant ac etifeddiaeth eu hunain. Adlewyrchir hyn yn ein diffiniad o ddatblygu cynaliadwy a nodir yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn ogystal a'r Raglen Lywodraethu.
- Mae'r dull hwn o weithredu yn ategu ac yn gwella ymdrechion i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd ystyriaeth gofalus yn cael ei roi i ymatebion yr ymgynghoriad diweddar ar y Papur Gwyn Datblygu Cynaliadwy, a byddant yn goleuo'r modd y byddwn yn symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.

12. Llunio a gweithredu mesur i asesu'r angen lleol am dai cyn datblygu; sicrhau'r hawl i gartref am bris teg (i'w rentu neu i'w brynu) yng nghymuned y person sy'n rhentu neu brynu; blaenoriaeth i bobl leol drwy'r system bwyntiau tai cymdeithasol; system gynllunio sydd yn gweithio er budd y gymuned; sicrhau ailasesu caniatâd cynllunio blaenorol

- Nod Llywodraeth Cymru yw darparu mwy o dai o'r math cywir a chynnig mwy o ddewis. Mae awdurdodau lleol yn asesu gofynion tai yn eu hardal drwy eu Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol ac mae hyn yn cynnwys angen cymunedau am dai fforddiadwy. Fel y nodir yn y Papur Gwyn ar Dai, mae cartref y gall pobl ei fforddio yn hanfodol i nodau Llywodraeth Cymru. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddiwallu'r angen a nodwyd ganddynt am dai fforddiadwy wrth gynllunio eu darpariaeth ar gyfer tai, gan gydnabod hefyd gyfyngiadau'r farchnad. Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol asesu'r angen am dai fforddiadwy yn eu hardal i ystyried wrth lunio eu polisiâu ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y tai fforddiadwy a ddarperir yn parhau'n hygyrch i'r rhai na all fforddio tai'r farchnad.
- Wrth ddyrannu tai, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â Deddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002) a Chod Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Mae ein canllawiau'n nodi y dylai cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'r tai cymdeithasol sydd ar gael gan eu bod yn adnodd cyhoeddus â chryn alw amdano, ac y dylent allu gosod eu meini prawf eu hunain ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol, sy'n cynnwys cymhwysedd ar sail cysylltiad lleol.
- O ran ailasesu caniatâd cynllunio blaenorol, dim ond pan fo'r cais gwreiddiol wedi dirwyn i ben neu pan fo ymgeisydd yn gwneud cais i'w addasu y gellir gwneud hyn. Os yw'r datblygiad wedi cychwyn yn unol â'r caniatâd gwreiddiol, yna nid oes dim y gellir ei wneud. Mae caniatâd cynllunio yn para am 5 mlynedd fel arfer cyn iddo ddirwyn i ben oni bai bod rhan o'r datblygiad wedi cychwyn. Os felly, mae'r caniatâd yn parhau am gyfnod amhenodol.

13. Sefydlu cynllun grantiau i brynwyr tai tro cyntaf ac ariannu hyn trwy rhoi'r hawl i gynghorau godi treth o 200% ar ail gartrefi.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Cymorth Prynu a'i ddiben yw helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy mewn ardaloedd sy'n brin ohonynt drwy gynorthwyo pobl a fyddai, fel arall, yn cael blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol, i brynu tŷ ar y farchnad. Mae wedi cynorthwyo prynwyr am y tro cyntaf yn ogystal â'r rhai sy'n ail-ymuno â'r farchnad eiddo ac sy'n cael problemau gyda fforddiadwyedd. Mae'r rhai sy'n gymwys i gymryd rhan yn y cynllun yn cael benthyciad ecwiti gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithas Dai) er mwyn prynu eiddo cymwys. Mae balans y pris prynu yn cael ei ariannu gan yr ymgeisydd drwy forgais confensiynol a / neu gynilion.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y dylai system y dreth gyngor fod yn berthnasol i dai nad ydynt yn brif breswylfannau i'w perchnogion.
- Cyfrifoldeb awdurdodau lleol Cymru yw penderfynu a yw'r Cynllun Cymorth Prynu yn flaenoriaeth ar gyfer defnyddio eu dyraniad Grant Tai Cymdeithasol, neu gynlluniau tebyg yn eu hardaloedd.

14. Llunio strategaeth dai sydd yn rhoi'r pwyslais ar adnewyddu'r stoc tai sy'n bodoli'n barod a chyllido ar gyfer hyn, fel modd i wneud defnydd o'r 26,000 o dai gwag hirdymor ledled y wlad.

- Mae gan Lywodraeth Cymru Strategaeth Dai Genedlaethol sy'n llwyr gydnabod yr angen i wneud y defnydd gorau o stoc bresennol ac roedd y Papur Gwyn ar Dai yn cynnig ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Mae gan awdurdodau lleol bwerau sylweddol eisoes ar gyfer dechrau defnyddio eto eiddo yn y sector preifat a fu'n wag am dymor hir gan gynnwys gwerthu gorfodol, Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag, ac mewn achosion eithriadol, Gorchymyn Prynu Gorfodol.
- Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid £10 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Cynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod yna £20 miliwn ar gael erbyn hyn fel benthyciadau di-log i berchnogion eiddo preswyl preifat sy'n wag, er mwyn sicrhau y gellir eu defnyddio unwaith eto drwy eu gwerthu neu eu rhentu.
- Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn gallu dechrau defnyddio 5,000 eiddo a fu'n wag am dymor hir yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

15. Sicrhau hawliau cymunedau i ymwneud â'r broses gynllunio a rhoi hawl i gymunedau a grwpiau apelio ceisiadau cynllunio

- Mae'r broses Cynllun Datblygu Lleol yn sicrhau cyfle i gynnwys cymunedau. Mae'r system ar gyfer paratoi'r CDLI yn cynnwys gofyniad i'r awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n egluro sut mae'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu cynnwys y gymuned yn ystod y broses o baratoi'r cynllun.
- Mewn perthynas â hawl trydydd parti i apelio, ystyriodd y Grŵp Cyngori Annibynnol y mater hwn. Nid oedd y Grŵp Cyngori Annibynnol yn ystyried bod achos dros gyflwyno hawliau trydydd parti i apelio yng Nghymru, gan iddo ddod i'r casgliad bod mesurau eraill ar gael sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi argymhelliad y Grŵp ac wedi dod i'r casgliad na fyddai hawliau trydydd parti yn gwella'r system gynllunio.

16. Datganoli "Yr Arolygiaeth Gynllunio (Planning Inspectorate)" i Gymru, corff sydd yn gyfrifol am apeliadau ac archwiliadau i mewn i ddatblygiadau cynllunio, a sicrhau rheolaeth ddemocrataidd ohono

- Ceir Cyfarwyddiaeth Cymru yn rhan o'r Arolygiaeth Gynllunio ac mae'r arolygwyr cynllunio sydd wedi bod yn rhan archwilio'r Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u hyfforddi yn y system Gymreig, ac yn llwyr ymwybodol o faterion cynllunio ac o bolisi cynllunio cenedlaethol Cymru.
- Ystyriodd y Grŵp Cyngori Annibynnol y mater o gael Arolygiaeth ar wahân. Daeth i'r casgliad y dylai'r Arolygiaeth barhau i ddarparu gwasanaeth cyfunol yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Grŵp.

Iaith

17. Adolygiad cyflawn o holl wariant y llywodraeth, gan gorff annibynnol fel Comisiynydd y Gymraeg, ac asesu perthynas y gwariant hwnnw â'r Gymraeg - sef

mesur ôl-troed ieithyddol y gwariant. O ystyried y twf sydd wedi bod yn nifer y siaradwyr Basgeg mewn cyfrifiadau ers 1991, dylid cynyddu'r adnoddau a roddir i hyrwyddo'r Gymraeg i lefelau'r wlad honno, sef pedair gwaith cymaint â'r gwariant presennol yng Nghymru.

- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymchwilio i'r dewisiadau mewn perthynas â'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnal adolygiad o'r fath.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer y Strategaeth er mwyn mesur effaith prosiectau sy'n hybu a hwyluso'r defnydd i'r Gymraeg. Bydd y fframwaith yn sicrhau fod gweithgareddau sy'n hybu a hwyluso'r Gymraeg sydd wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru wedi eu selio ar dystiolaeth, a bydd hyn yn helpu wrth werthuso effeithiolrwydd y Strategaeth iaith ei hun.

18. Targedu siaradwyr Cymraeg yn eu harddegau fel grŵp allweddol i ddyfodol y Gymraeg gan gynnwys cynyddu'n sylweddol y buddsoddiad mewn gwasanaethau ieuencid, yn arbennig gwasanaethau chwaraeon a diwylliannol. Adolygu gwariant Cyngor y Celfyddydau, a'r Cyngor Chwaraeon gan arallgyfeirio i sicrhau cynnydd sylweddol yn y gyllideb ar gyfer y grŵp targed yma.

- Mae Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn adnabod pwysigrwydd pobl ifanc fel grŵp allweddol i ddyfodol yr iaith. Prif nod maes strategol 2 y strategaeth yw i "gynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a cynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.
- I'r perwyl hwn, mae Uned y Gymraeg yn y Gymuned Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfres o grantiau i brosiectau ieuencid sy'n annog gweithgarwch diwylliannol a chwaraeon ymysg pobl ifanc Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - (i) Grant blynyddol o £852,184 (cyfnod 2013/14) i *Urdd Gobaith Cymru* er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith ynghyd â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd canran uchel o'r grant yn cael ei fuddsoddi yng ngwaith swyddogion maes a chwaraeon (costau staff a gweithgareddau) sy'n darparu gweithgareddau fel rygbi, pêl-droed, nofio ac athletau yn ogystal â chystadlaethau offerynnol, gweithgareddau canu a chelf a chrefft i'w aelodau yn rheolaidd.
 - (ii) grant o £20,300 i Wobr Dug Caeredin Cymru er mwyn ariannu swyddog i gefnogi gwaith Gwobr Dug Caeredin drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r swyddog yn cefnogi siaradwyr Cymraeg ifanc rhwng 14 a 25 oed i gwblhau eu gwobrau Aur, Arian ac Efydd drwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau awyr agored, chwaraeon a'r celfyddydau gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc.
 - (iii) grant o £12,165 i'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig er mwyn ariannu swyddog datblygu. Mae gwaith y swyddog hwn yn cefnogi cerddoriaeth yng Nghymru drwy sicrhau bod gan bobl ifanc gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â chefnogi a chodi proffil y diwydiant cerddoriaeth Gymraeg.
 - (iv) grant blynyddol o £23,000 (cyfnod 2013/14) ar gyfer y *prosiect Gwallgofiaid*. Buddsoddiad yw hwn i roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau, gyda'u teuluoedd ac yn y gwaith ac i gynyddu

gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, eu gwella a sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd ohonynt. Bydd y prosiect Gwallgofiaid yn darparu nifer o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn 2013/14 gan gynnwys cyrsiau dylunio, gweithdai ffilm, sain, cyflwyno ffotograffiaeth a newyddiaduraeth, digwyddiadau ffilm rhyngwladol, creu rhaglenni a dylunio a chyhoeddi cylchgronau iaith Gymraeg.

- Mae Llywodraeth Cymru yn dirprwyo'r gwaith o gyllido'r celfyddydau a chwaraeon i Gyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru. Dan yr egwyddor hyd braich, ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i naill ai Chwaraeon Cymru na Chyngor Celfyddydau Cymru i wneud penderfyniadau cyllid penodol. Fodd bynnag, mae gan y ddau gorff hyn a noddir bolisïau clir, Cynlluniau Iaith Gymraeg a Chynlluniau Gweithredu sy'n cynnwys targedau mewnol ac allanol. Mae'r ddau'n cymryd amrywiaeth o fesurau sy'n cefnogi sefydliadau sy'n cynnal eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n cefnogi'r iaith fel rhan o'u gwaith, a byddwn yn annog y ddau gorff i barhau i wneud hyn. Er enghraifft:

Cyngor Celfyddydau

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) eisoes yn gwario cyfran sylweddol o'i gyllid ar *weithgareddau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg* (tua £2.8 miliwn yn 2012/13). Mae £12.4 miliwn yn rhagor o wariant ar weithgarwch dwyieithog sy'n cynnwys cyfran sylweddol o waith cyfrwng Cymraeg. Mae CCC yn cydnabod bod yna fylchau yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae'n cefnogi nifer o fentrau, er enghraifft:
 - (i) mae'n hybu cyfres o *Interniaethau â thâl ar gyfer pobl ifanc Cymraeg eu hiaith* sydd am ddatblygu eu siliau gweinyddol proffesiynol yn y celfyddydau.
 - (ii) Yn ddiweddar, sefydlodd *gronfa Loteri newydd er mwyn datblygu theatr Cymraeg* ar gyfer teuluoedd.
 - (iii) Mae wedi cytuno ar *grant Loteri dwy flynedd o £60,000 dros ddwy flynedd i raglen datblygu Theatr Ieuencid yr Urdd* – mae hwn yn eithriad i feini prawf Loteri arferol CCC. Cytunwyd ar y grant mewn ymateb i faterion a godwyd gyda CCC am ddarpariaeth theatr Cymraeg ar gyfer pobl ifanc.
- Mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi mewn rhaglenni a gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft:
 - £250,000 mewn nawdd grant i Urdd Gobaith Cymru i ddarparu rhaglen chwaraeon Genedlaethol cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc (3-25 mlwydd oed).
 - Grant datblygu o £50,000 i'r Urdd i ehangu ar ddatblygiad Gemau Cymru 2013-2014.
 - Addysgu a hyfforddi hyfforddwyr trwy gyrrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol.
 - Roedd gwerth y rhaglenni a weithredwyr trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd yn unig oddeutu £940,000 yn 2012-2013.
- Diwedd Mai 2013, cyhoeddodd Cyngor Chwaraeon Cymru y byddai'n buddsoddi £250,000 pellach yn adran chwaraeon yr Urdd er mwyn cefnogi eu gwaith yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cymorth ariannol yn galluogi'r adran

chwaraeon i gynyddu'r nifer o clybiau cymunedol, cynyddu'r nifer o arweinyddion a hyfforddwyr sy'n derbyn hyfforddiant a chynyddu'r nifer o plant sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau, cystadlaethau a gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol.

- Mae'r £250,000 cychwynnol a fuddsoddwyd gan Chwaraeon Cymru 12 mis yn ôl wedi galluogi adran chwaraeon yr Urdd i sefydlu 91 clwb cymunedol newydd, cynnig cyrsiau blasu ar gyfer 38,000 o gyfranogwyr, wedi darparu sesiynau 'galw heibio' ar gyfer 4,538 o bobl ifanc ac wedi hyfforddi 1,002 o wirfoddolwyr newydd i gynorthwyo gyda gweithgareddau chwaraeon cymunedol.

19. Cefnogi cymunedau i gynnal cyfrifiadau cymunedol eu hunain er mwyn asesu cyflwr y Gymraeg a llunio argymhellion ar gyfer ei chryfhau gan gychwyn ar hyn yn y cymunedau gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Gweithredu er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith swyddogol a gweinyddol bywyd cyhoeddus yn y gymuned a chynnig cymorth i'r sector breifat i gyflawni yn yr un modd.

- Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu a chefnogi pecyn cymorth "Gweithredu'n Lleol". Nod y fenter oedd darparu fframwaith er mwyn galluogi cymdogaethau i gynnal cyfrifiadau cymunedol er mwyn asesu cyflwr y Gymraeg yn eu hardal. Mae'r cynllun yn ystyried amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i ddatblygiad yr iaith, megis y gymuned, gwaith ac addysg, ac mae'n rhoi cyfle i'r gymuned bwysu a mesur y dirwedd ieithyddol.
- Mae tua 20 o arolygon wedi'u cynnal hyd yn hyn, yn bennaf mewn ardaloedd lle mae yna ganran uchel o siaradwyr Cymraeg eu hiaith. Mae yna gyfres o ganllawiau i helpu'r gymdogaeth leol i greu cynllun gweithredu mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg. Yn ystod 2012-13, cynhaliodd Llywodraeth Cymru sesiynau hyfforddi ar gyfer hwyluswyr yn y cymdogaethau lleol er mwyn iddynt allu arwain trafodaethau ar greu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr iaith Gymraeg.
- Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru brosiect i "Gefnogi Partneriaid Iaith Gymraeg", Y nod yw gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru. Gan weithio gyda sefydliadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Merched y Wawr, Papurau Bro ag eraill sy'n ymwneud a'r maes cynllunio ieithyddol, y nod yw annog rhwydweithio rhwng partneriaid, rhannu gwybodaeth, cefnogi'r syniad o gydweithio fel grŵp, a cyd-drefnu ymgyrchoedd a phrosiectau lle bo'n addas. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi cyfle i'r partneriaid i ystyried materion sy'n effeithio ar ddyfodol yr iaith mewn ardaloedd penodol o Gymru, lle mae angen cefnogaeth ar y Gymraeg.

20. Llunio strategaeth a chynllun gweithredu unigol i ddiogelu ac i hyrwyddo'r Gymraeg mewn nifer penodol o ardaloedd ledled Cymru gydag adolygiad yn flynyddol o'r sefyllfa lle gwelwyd cwymp o 5% neu fwy yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o waith y mentrau iaith, cynlluniau gweithredu lleol, a phrosiect Aman Tawe (gweler yr ymateb i bwynt 3 uchod), ac yn ystyried y modd mwyaf addas o dargedu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol unwaith bydd yr adolygiad wedi ei gyhoeddi.

- Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau hefyd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn ystyried cymunedau Cymraeg eu hiaith, dan gadeiryddiaeth Rhodri Llwyd Morgan. Mae'r grŵp yn casglu tystiolaeth a chyflwyniadau gan amrywiaeth o arbenigwyr yn eu meysydd sy'n berthnasol i fywiogrwydd y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Mae'r grŵp yn bwriadu creu rhaglen waith gyda'r nod o gynyddu nifer y cymunedau sydd â'r Gymraeg yn brif iaith. Mae'r grŵp yn disgwyl adrodd i'r Gweinidog erbyn hydref 2013 a bydd y canlyniadau yn llywio unrhyw benderfyniad bydd yn cael ei wneud gan y Llywodraeth ar dargedu ardaloedd lle bu cwymp yn y ganran o siaradwyr Cymraeg.
- Mae Comisiwn yn cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn Sir Gar mewn ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiad. Mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yno wedi gostwng o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011. Mae'n ymddangos fod cyfraddau trosglwyddo iaith genhedlaeth yn ôl yn awr yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn y Sir. Amcanion y Comisiwn fydd i adnabod y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y Gymraeg yn Sir Gar, derbyn tystiolaeth gan amryw o gynrychiolwyr, a chytuno ar gynllun gweithredu a fydd yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned.

21. Targedu 6-10 o ardaloedd fel Ardaloedd Adfywio a Datblygu'r Gymraeg a llunio cynlluniau iaith cynhwysfawr i gynnal ac i ddatblygu twf ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd.

- Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn targedu ardaloedd penodol yng Nghymru a'r nod o hybu adnewyddiad ieithyddol o fewn y cymunedau hynny.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cynlluniau Gweithredu Lleol (CGLL) sy'n gosod rhaglen waith i gefnogi'r defnydd o'r iaith lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, ar sail canlyniadau cyfrifiad 2001. Mae'r 8 Cynllun Gweithredu Lleol wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n adlewyrchu'r tuedd yma, ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhan ddeiliaid allweddol megis sefydliadau cymunedol, er mwyn annog gweithredu strategol er mwyn gwrthdroi y shifft ieithyddol. Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cyflawni'r gwaith mewn saith o'r cynlluniau, Lleolir yr 8fed yn Abergwaun ac mae'n cael ei redeg gan Menter Iaith Sir Benfro.
- Mae'r swyddogion sy'n gweithio yn y cymunedau yn hybu ymgyrch "Cymraeg yn gyntaf" Llywodraeth Cymru, sydd yn targedu siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y cadarnleoedd Cymreig er mwyn eu hannog i ddechrau sgysiau trwy gyfrwng y Gymraeg wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Mae'r ymgyrch yn ymateb i'r pryder fod siaradwyr Cymraeg yn aml yn dechrau sgysiau trwy gyfrwng y Saesneg wrth fynd o gwmpas eu busnes mewn siopau, banciau, tai bwyta neu weithgareddau cymunedol eraill. Mae'r ymgyrch yn cyfeirio pobl at y dudalen gymunedol Gymraeg ar Facebook lle gellir rhannu gwybodaeth am fusnesau sydd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg yn gyson, a hefyd yn darparu gwybodaeth ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Pwrpas hyn ydy rhoi hyder i bobl ddefnyddio'u Cymraeg yn reolaidd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol fod angen targedu rhai cymunedau yn arbennig er mwyn hybu datblygiad ieithyddol yn dilyn canlyniadau'r cyfrifiad. Mae cynllun beilot yn cael ei weithredu yn ardal Aman Tawe fel ymateb i'r angen hwn. Sefydlwyd cynllun Aman Tawe fel ymateb i'r shifft ieithyddol sylweddol a fu yn yr ardal. Mae'r cynllun yn gweithio ar draws 3 cyngor sir, ac yn cydweithio gyda mentrau iaith Dinefwr a Neath Port Talbot. Elfen pwysig o'r prosiect yw'r gwaith sy'n

cael ei gyflawni er mwyn gwella gallu'r gymuned ei hun i gynyddu argaeledd gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Mae'n canolbwyntio ar feysydd megis y gymuned, Cymraeg yn y cartref, Cymraeg yn yr ysgol a'r gymuned, yn y gwaith, a Cymraeg a'r economi.

22. Llywodraeth Cymru i lansio ymgyrch cenedlaethol dwys i ddarbwylllo mwy o rieni plant blynyddoedd cynnar i ddewis addysg Gymraeg – e.e. cynyddu'n sylweddol y gyllideb ar gyfer cynlluniau megis 'Twf' a phwysleisio mai un o'r ffyrdd mwyaf amlwg o godi safonau llythrennedd a rhifedd yw trwy ehangu addysg ddwyieithog.

- Yn Strategaeth y Gymraeg, nodir mai trosglwyddo iaith ac addysg yw'r ddau faes pwysicaf o ran cynllunio iaith. Prif waith Llywodraeth Cymru yn y maes trosglwyddo iaith yn y teulu yw'r prosiect Twf.
- Nod Twf yw cynyddu nifer y rhieni sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant. Mae tair ffordd wahanol o wneud hyn:
 1. Mae 20 o swyddogion maes Twf yn y Gogledd a'r De-orllewin yn cael cysylltiad 1:1 â darpar rieni a rhieni newydd er mwyn trosglwyddo neges Twf. Yn 2012-13 gwnaed dros 9,000 o gysylltiadau â'r rhieni hyn mewn clinigau cynenedigol ac ôl-enedigol ledled y Gogledd a'r Gorllewin.
 2. Mae swyddogion Twf yn cydweithio'n agos â'r sector iechyd yn enwedig gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Mae swyddogion Twf yn darparu gweithdai a sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol y sector iechyd yn hyderus i drosglwyddo'r neges am fanteision dwyieithrwydd, cyflwyno'r Gymraeg i'r cartref ac addysg cyfrwng Cymraeg.
 3. Mae Twf yn darparu adnoddau marchnata, ac yn ôl adroddiad ar effaith Twf, mae'r rhain yn cael eu croesawu gan y gynulleidfa darged. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys gwefan ryngweithiol, a CD o Hwiangerddi Cymreig, llyfryn gwybodaeth a ffolder mamolaeth a gaiff ei ddosbarthu gan fydwagedd i bob mam feichiog ar ei hymweliad cyntaf â'r clinig cynenedigol. Mae cyllideb gyfredol Twf ar gyfer 2012-2013 yn £654,000.
- Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosiect peilot 'Tyfu gyda'r Gymraeg' mewn 3 ardal yn y De-ddwyrain. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Nod y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth rhieni a darpar rieni o fanteision yr iaith Gymraeg a sicrhau bod yna gynnydd yn nifer y plant (dan 7 oed) sy'n clywed ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y cartref ac yn gymdeithasol. Bydd Tyfu gyda'r Gymraeg yn berthnasol i rieni sy'n gallu siarad Cymraeg ond sy'n ddihyder, a rhieni sy'n dysgu siarad Cymraeg. Bydd yn gyfle hefyd i feithrin cysylltiadau â rhieni di-gymraeg a'u cefnogi cyn iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â'r iaith Gymraeg ar gyfer eu teuluoedd.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cynnal ymgyrch farchnata a chyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r ymgyrch yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd ac fe'i cynhelir yn yr hydref yn y cyfryngau cyfrwng Saesneg yn Nghymru.

23. Sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg: ni ddylid amddifadu'r un plentyn o'i hawl i fod yn rhugl yn y Gymraeg fel un o ddinasyddion Cymru. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Addysg weithredu

cynlluniau radical i chwyldroi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion, gan anelu at sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg. Mynnu bod y Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg yn cynnwys cynlluniau manwl i sicrhau cynnydd blynyddol yn y nifer sy'n trosglwyddo i'r sector iaith gyntaf gyda'r pwyslais ar ddilyniant iaith yn hytrach na chynnal dwy ffrwd iaith. Sicrhau bod hanes cymdeithasol y Gymraeg yn cael ei ddysgu i bob disgybl yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth ynghylch hanes y Gymraeg ac i fod yn sail ar gyfer dysgu'r iaith.

- Cyhoeddodd y Llywodraeth Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2010 sy'n datgan uchelgais Llywodraeth Cymru o gael gwlad lle mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhan hanfodol o'r addysg, a seilwaith lle gall pob dysgwr ddatblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w lawn botensial.

Cymraeg ail iaith:

- Mae'r gwaith o ddatblygu a chodi safonau addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith yn un o amcanion penodol y strategaeth. Yn ystod 2012 cyhoeddwyd cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â safonau gwael ym maes Cymraeg ail iaith, ac mae'n nodi chwech amcan sy'n ymdrin â'r prif faterion sy'n wynebu ymarferwyr a dysgwyr Cymraeg ail iaith. Dyfarnwyd cyllideb o £400,000 er mwyn rhoi'r cynllun ar waith dros gyfnod o bedair blynedd. Dyma'r prif amcanion:
 1. Rhannu arferion da a datblygu canllawiau ar addysgu Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd, gan gynnwys sefydlu cronfa ddata o rwydwaith o arferion da ac adnoddau dysgu;
 2. Annog mwy o addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg;
 3. Gwellu methodoleg a sgiliau iaith athrawon, gan gynnwys datblygu ymhellach raglen gynhwysfawr er mwyn hyfforddi athrawon Cymraeg ail iaith;
 4. Sicrhau bod gan ysgolion uwchradd yr adnoddau a'r gallu i adeiladu ar yr iaith a ddysgwyd ar lefel gynradd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau digidol newydd a sefydlu cwrs ymdrochi iaith er mwyn gwella cyrhaeddiad dysgwyr Cymraeg ail iaith ôl-16;
 5. Adolygu prosesau asesu a chymwysterau Cymraeg ail iaith er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben, a;
 6. Cyflawni gwaith ymchwil ar gaffael ail iaith mewn perthynas â dysgu Cymraeg rhwng 5 a 16 oed.
- Er mwyn gwireddu pwynt 5, ym mis Mehefin 2012 cyhoeddwyd adolygiad annibynnol o'r gwaith o addysgu ac asesu Cymraeg fel ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae gwaith yr adolygiad yn parhau ac mae'r grŵp wedi cael tystiolaeth gan athrawon, disgyblion a rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y maes hwn. Bydd y grŵp yn cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Medi.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg:

- Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a gymeradwywyd yn ddiweddar, yn gwneud Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ofyniad statudol. Fel rhan o'r gwaith paratoi i roi'r Ddeddf ar waith, rydym wedi derbyn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yn wirfoddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Maent wedi'u hasesu ac mae'r awdurdodau wedi cael adborth. Cynhelir cyfarfodydd monitro gyda phob awdurdod lleol.

- Disgwylir i awdurdodau lleol gynnwys targedau (lle y bo'n briodol) ar gyfer gwella safonau Cymraeg ail iaith a gwella cyfraddau cynnydd ieithyddol rhwng cyfnodau allweddol yn eu cynlluniau strategol a bydd unrhyw gynnydd yn cael ei fonitro.

Hyfforddi Ymarferwyr:

- Mae sawl rhaglen yn parhau i gael ei chefnogi ac mae prosiectau eraill wedi'u sefydlu er mwyn cyfrannu at y nod o sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg sydd â digon o ymarferwyr medrus, gallu rhagorol yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.
- Mae'r Cynllun Sabothol yn darparu cyfleoedd i ymarferwyr ysgol a darlithwyr addysg bellach wella eu sgiliau iaith ac mae'n rhoi hyder iddynt ddefnyddio mwy ar yr iaith wrth ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r Cynllun yn cynnig cyrsiau am ddim ar dair lefel mewn saith lleoliad ledled Cymru. Mynychodd dros 300 o ymarferwyr gyrsiau'r Cynllun yn ystod 2012-13.
- Mae Grant y Gymraeg mewn Addysg yn darparu cymorth i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn ariannu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion y Strategaeth, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer ymarferwyr. Dyfarnwyd grant o dros £5.4 miliwn i awdurdodau lleol yn ystod 2013-14

Dilyniant ieithyddol:

- Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau nodi sut y byddant yn gwella cyfraddau dilyniant rhwng pob cyfnod allweddol. Mae cyfraddau dilyniant ieithyddol yn cael eu mesur a'u monitro gan Ddeilliant 2 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg - canran y disgyblion a asesir mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn 14 oed. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r targed ei nodi yn Adroddiad Blyneddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Comisiynu adnoddau:

- Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu adnoddau a deunyddiau dysgu er mwyn cefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg ar draws sectorau ac ystodau oedran. Bydd y gwaith hwn yn parhau, gyda mwy o bwyslais ar adnoddau digidol.

Cwricwlwm Cymreig:

- Dan y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'n ofynnol i blant gael y cyfle i ddatblygu a defnyddio eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, rhoddir pwyslais ar astudio hanes lleol ac mae'r cwricwlwm hanes yn cyfrannu at hyn drwy wneud hanes lleol yn rhan annatod o ddysgu.
- Yn dilyn cyhoeddi adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ym mis Hydref 2012, sefydlodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau grŵp er mwyn adolygu'r gwaith o addysgu hanes Cymru, stori Cymru a'r Cwricwlwm.

- Mae'r grŵp wedi cyhoeddi adroddiad interim; "Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru" ac mae wedi gofyn i bobl ymateb i'r adroddiad drwy wefan Llywodraeth Cymru:
<http://dysgu.cymru.gov.uk/news/consultations/consultation-on-cwricwlwm-cymreig/?skip=1&lang=cy>

24. Galw ar Awdurdodau Addysg i lunio Strategaethau addysg a Chynlluniau Gweithredu sy'n rhoi pwyslais ar Addysg Gydol Oes drwy gyfrwng y Gymraeg a dilyniant mewn addysg Gymraeg ar lefel cynradd, uwchradd, ôl-16/addysg bellach/addysg uwch gan anelu at sicrhau lleihad sylweddol yn y tymor byr yn y nifer sy'n trosglwyddo o addysg gynradd Cymraeg iaith gyntaf i addysg uwchradd ail iaith.

- Drwy'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19, mae Awdurdodau Lleol yn cynllunio Llwybrau Dysgu sy'n berthnasol i fyfyrwyr, ac yn cydweithredu â cholegau er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r ddarpariaeth hon drwy ddarparu grant penodol ar gyfer datblygu cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ers 2008-09. Mae hyn wedi sicrhau twf mewn cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg newydd a gynigir gan gyrff dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru.
- Mae llythyr y Gweinidog Addysg a Sgiliau i golegau addysg bellach yn nodi ei ddisgwyliad y bydd nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr mewn colegau yn cynyddu ynghyd â'r nifer sy'n astudio'r cyrsiau a'r modiwlau hyn. Bydd hyn yn cael ei fonitro a'i adrodd arno yn Adroddiad Blyneddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio â phob prifysgol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod mwy o addysg uwch cyfrwng Cymraeg ar gael a chynyddu'r nifer sy'n dilyn y cyrsiau. Mae'r Coleg yn gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a cholegau Addysg Bellach i wella llwybrau cynnydd er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol.
- Mae datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn nodi'r disgwyliadau sydd ar ddarparwyr i wella cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn unol â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg), gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

25. Cynyddu'r buddsoddiad a'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16, gan sicrhau bod y gwariant yn cynyddu'n sylweddol yn y sector, yn arbennig yn y sector addysg bellach a'r sector addysg oedolion yn y gymuned.

- Mewn ymateb i Nod Strategol 2 yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, sy'n nodi'r angen i "gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a hyfforddiant galwedigaethol", mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r gyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall ers 2012-2011 ar gyfer y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Ar hyn o bryd, mae 17 o golegau addysg bellach yn cyflogi Hyrwyddwyr er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael i fyfyrwyr.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn benodol hefyd er mwyn cefnogi'r sector dysgu sy'n seiliedig ar waith.

- Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cwblhau adolygiad o gyllid addysg ôl 16. Bydd yr adolygid yn ystyried y cynnydd mewn addysg cyfrwng Gymraeg a sut y gall hyn sicrhau cynnydd pellach yn y ddarpariaeth sydd ar gael i fyfyrwyr.
- Mae datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn nodi'r disgwyliadau sydd ar ddarparwyr i wella cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn unol â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg), gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

26. Cyflwyno a phasio'r safonau fel a luniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y swyddi Gymraeg a phrif-ffrydio'r Gymraeg ar draws sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yng Nghymru

- Ar 25 Chwefror 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu bwrw ymlaen â chynigion Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer safonau'r Gymraeg gan na fyddent yn cyflawni'r amcan polisi cyffredin o ddarparu hawliau ieithyddol clir i ddinasyddion. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres ddiwygiedig o safonau iaith Gymraeg ar gyfer ymgynghori arnynt, a chyhoeddodd amserlen fras ar 16 Mai 2013. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd rheoliadau sy'n cyflwyno'r gyfres gyntaf o safonau, ynghyd â'r rheoliadau sy'n gwneud safonau sy'n berthnasol i unigolion yn benodol, yn cael eu gwneud erbyn diwedd 2014.
- Bydd y ddogfen ymgynghori ar gyfer y gyfres gyntaf o safonau, a gyhoeddir ddiwedd mis Gorffennaf 2013, yn canolbwyntio ar alluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Bydd rhagor o safonau ar gyfer sectorau a sefydliadau eraill a restrir yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn dilyn maes o law.